# HARRIES, ISAAC HARDING, gweinidog a golygydd cyfnodolion

**Enw:** Isaac Harding Harries
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog a golygydd cyfnodolion
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Argraffu a Chyhoeddi
**Awdur:** Thomas Richards

Lle a dyddiad ei eni'n ansicr; codwyd ef i bregethu yn y Cendl, sir Fynwy; bu yn athrofa Neuaddlwyd; gweinidog ar Annibynwyr Tal-y-sarn, Arfon, 1831-5. Yn y cyfnod hwn traddododd anerchiadau huawdl dros Gymdeithas y Beiblau, a chyhoeddodd un ohonynt, gyda *Sylwedd Pregeth* o'i blaen, yng Nghaernarfon (72 td., arg. Peter Evans).

Yn nechrau 1836 daeth yn weinidog eglwys Mynydd Bach ger Abertawe, a chyn diwedd y flwyddyn yr oedd wedi cyfansoddi *Holiedydd Efengylaidd* at wasanaeth eglwysi Annibynol y cylch (arg. yn Llanelli, 1837). Ond o ddrwg i waeth yr aeth ei fuchedd a'i weithredoedd; yn Hydref 1839 bu iddo ef a phlaid gref fyned allan o'r eglwys, a chodi capel newydd yn Abertawe o'r enw Caersalem Newydd. Dal i fyned i lawr yr oedd safonau Harries, a gorfu i'r blaid newydd ei droi ymaith yn gynnar yn 1841 (diwedd eglwys Caersalem Newydd oedd troi at y Bedyddwyr, oherwydd darfod pob gobaith ei derbyn gan gyfundeb Annibynnol y sir). Yn 1842 clywir am Harries ym Mangor fel gweinidog ar nifer o Wesleaid Annibynol, neu ' Wesle Bach,' yn Bethel, Union Street, ac yn cadw ysgol yn y capel. Yn Ionawr 1843, dechreuodd gyhoeddi cyfnodolyn misol yn dwyn yr enw *Twr Gwalia*, llawn o ymosod ffyrnig ar y Wesleaid uniongred, ac yn Hydref yr un flwyddyn daeth allan (a Harries yn olygydd iddo) rifyn cyntaf *Figaro the Second*, a alwyd felly i'w wahaniaethu oddi with y *Figaro in Wales* a gyhoeddid yn yr un ddinas, 1835-6. Yr oedd rhyw fath o athrylith ddiamheuol y tu ôl i'r *Figaro* hwn, ond arferai'r golygydd y fath ensyniadau difrïol fel nad yw'n syn i'r papur farw rhwng Mawrth a Gorffennaf 1844, ynghanol s n curo cyhoeddus ar yr heol a thalu symiau o iawn yn y llysoedd. Dywaid *Hanes Egl. Ann.* eiriau cryfion iawn am Harries ac yn wyneb ei ymddygiadau diras ac annosbarthus, anodd peidio â chredu eu bod yn wir. Ar ôl marw'r *Figaro*, cyhoeddi'r *Drych Calfinaidd*, yn 1844, colli ei afael ar gapel Union Street, a methu yn ei ymgais i olygu papur Eglwysig Cymraeg, ciliodd i Lundain, lle y bu farw o gwmpas 1868.

## Awdur

**Thomas Richards**, (1878 - 1962)

## Ffynonellau


*Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru*, ii, 11; iii, 228

*Journal of the Welsh Bibliographical Society*, v, 221-30

manylion am helynt Mynydd-bach gan y Parch. O. M. Lloyd (yn awr o Gaergybi)

*Y Diwygiwr*, 1840, 379

*Yr Haul*, 1840, 24, 150, 375

*Seren Gomer*, 1839, 342; 1840, 41

ffeiliau y *North Wales Chronicle* a'r *Carnarvon and Denbigh herald, and North and South Wales independent*, 1843-6


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733289


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu